ARMED FORCES COVENANT

# ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG 2024

## Crynodeb



# Rhagair gan y Gweinidog i'r Adroddiad Blynyddol

Mae ein gwlad dan arweinyddiaeth newydd ers 5 Gorffennaf 2024. Mae arweinyddiaeth newydd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ac mae gennym fandad cryf ar gyfer newid. Mae amddiffyn wrth galon diogelwch y wlad hon yn y dyfodol a'i llwyddiant yn y dyfodol, ac mae'n anrhydedd ac yn fraint i mi wasanaethu yn rôl yr Ysgrifennydd Amddiffyn.

Mae'r dirwedd fyd-eang bresennol yn parhau i amlygu a dangos y gwaith pwysig y mae ein Lluoedd Arfog yn ei wneud. Mae'n bryd i bethau newid. Rydym yn cael ein harwain gan egwyddor arweiniol 'Un Amddiffyniad' i wneud Prydain yn ddiogel gartref ac yn gryf dramor.


Ers 2011, mae Cyfamod y Lluoedd Arfog wedi bod yn addewid gan y genedl bod y rheini sydd wrthi'n gwasanaethu, neu sydd wedi gwasanaethu, yn y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd a phobl sydd wedi colli anwyliaid, yn cael eu trin yn deg. Nid ydym yn cymryd yr addewid hon yn ysgafn. Dyna pam mae'r llywodraeth hon wedi gwneud ymrwymiad yn ei maniffesto i ymgorffori'r Cyfamod yn llawn yn y gyfraith ac rwy'n falch o ddweud bod gwaith eisoes ar y gweill i ddatblygu a chyflawni hyn.

Mae'n fraint cael cyflwyno trydydd Adroddiad Blynyddol ar ddeg Cyfamod y Lluoedd Arfog, y cyntaf o dan lywodraeth Lafur. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cyfraniadau o bob rhan o'r Weinyddiaeth Amddiffyn, ochr yn ochr ag adrannau ehangach y llywodraeth, y gweinyddiaethau datganoledig a sefydliadau'r trydydd sector, a dyma'r prif adnodd a ddefnyddir i'n dal ni, y llywodraeth, i gyfrif o ran cyflawni'r Cyfamod a'i egwyddorion sylfaenol. Y cyfnod adrodd diweddaraf (Hydref 2023 – Medi 2024).

Mae'n brawf o waith caled y Lluoedd Arfog a'r timau ehangach sy'n eu cefnogi bod nifer y llofnodwyr ar gyfer Cyfamod y Lluoedd Arfog yn parhau i dyfu. Gwelwyd carreg filltir arwyddocaol ym mis Gorffennaf 2024 gyda'r 12,000fed llofnod ar y Cyfamod, nifer sydd bellach wedi tyfu i dros 12,400, ac mae'r Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn bellach wedi dyfarnu dros 1,000 o wobrau aur, sy'n dangos pwysigrwydd denu aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog.

Mae personél a chyn-filwyr – a'r teuluoedd sy'n eu cefnogi – yn gwasanaethu ein gwlad gydag ymroddiad a phroffesiynoldeb. Yn rhy aml maent yn wynebu problemau ac wedi cael eu siomi. Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i adnewyddu contract y genedl â'r rheini sydd wrthi'n gwasanaethu a'r rheini sydd wedi gwasanaethu. Rydym eisoes yn darparu ar gyfer amddiffyn. Rydym wedi rhoi'r codiad cyflog mwyaf ers dros 20 mlynedd i bersonél y lluoedd arfog, cyflwyno Bil Comisiynydd y Lluoedd Arfog i'r Senedd i wella bywyd yn y lluoedd, ac wedi cyhoeddi camau i helpu cyn-filwyr i gael tai cymdeithasol, gydag eithriadau o brofion cysylltiadau lleol yn Lloegr. Ond mae llawer iawn mwy i'w wneud.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos yr holl waith sy'n cael ei wneud i gefnogi'r Lluoedd Arfog (Personél Rheolaidd ac Wrth Gefn), y rheini sydd wedi gwasanaethu yn y gorffennol, a'u teuluoedd. Mae hefyd yn tynnu sylw at ble mae angen gwneud mwy i sicrhau nad ydynt yn wynebu anfantais o'i gymharu â dinasyddion eraill o ran cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus a masnachol, rhywbeth y mae'r llywodraeth hon wedi ymrwymo i'w gynnal.



Y Gwir Anrhydeddus John Healey AS –
Ysgrifennydd Gwladol Dros Amddiffyn



Y Prif Weinidog Keir Starmer (canol) a’r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn John Healey (chwith) yn cwrdd â’r Arglwydd Robertson (dde) pennaeth Adolygiad Amddiffyn Strategol y Llywodraeth.

# Iechyd a gofal iechyd

Un o flaenoriaethau cyntaf y llywodraeth yw gofalu am anghenion iechyd cymuned y Lluoedd Arfog, yn enwedig lle mae gwasanaeth milwrol wedi achosi neu waethygu’r anghenion hynny. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn darparu rhywfaint o wasanaethau gofal iechyd i bersonél y Lluoedd Arfog, ac mae'r GIG ledled y DU yn darparu gwasanaethau i aelodau'r teulu, i gyn-filwyr ac i bobl sydd wedi colli anwyliaid, gan ddibynnu ar eu lleoliad. Mae’r Weinyddiaeth Amddiffyn, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, cyrff perthnasol y GIG, a’r gweinyddiaethau datganoledig i gyd yn dal i gydweithio’n agos i sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu a bod gwasanaethau’n cael eu gwella.

Mae uchafbwyntiau’r gwaith hwn i wella gwasanaethau gofal iechyd dros y cyfnod adrodd yn cynnwys y canlynol:

- Mae 98% o ymddiriedolaethau’r GIG ac ymddiriedolaethau sefydledig yn Lloegr bellach yn rhan o Gynghrair Gofal Iechyd Cyfamod y Cyn-filwyr.

- Lansiwyd ail fersiwn HeadFIT ym mis Gorffennaf 2024 gyda gwefan wedi’i hail-ddylunio. Mae’n tynnu sylw at yr amgylchedd Amddiffyn unigryw ac yn hyrwyddo ffitrwydd meddyliol ochr yn ochr â ffitrwydd corfforol fel rhywbeth sy’n hanfodol i gynnal perfformiad ac effeithiolrwydd gweithredol.


- Ym mis Medi 2024, roedd prif weithredwr y GIG wedi llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog eto ar ran GIG Lloegr.

- Erbyn diwedd mis Medi 2024, roedd gan dros 98% o rwydweithiau gofal sylfaenol yn Lloegr o leiaf un practis cyfeillgar i gyn-filwyr sydd wedi’i achredu gan Goleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol.

- Gwelodd Op COURAGE dros 6,800 o atgyfeiriadau yn ystod ei flwyddyn gyntaf o weithredu fel gwasanaeth iechyd meddwl a llesiant integredig newydd.

- Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus, lansiwyd Cynllun Adnabod Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr Practis Cyffredinol ym mis Tachwedd 2023 sy’n ceisio codi ymwybyddiaeth o rai o’r heriau iechyd y mae cymuned y Lluoedd Arfog yn eu hwynebu.

- Erbyn hyn mae’r gwaith adeiladu wedi dechrau ar gyfleuster iechyd blaenllaw’r GIG a’r Weinyddiaeth Amddiffyn, sef Campws Gofal Integredig Catterick yng Ngarsiwn Catterick, Gogledd Swydd Efrog - disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn y gwanwyn 2026.



Swyddogion cymorth cyntaf gyda chlaf yn ystod Ymarfer Damwain ar Fwrdd Llong yr HMS Tywysog Cymru ynghyd â Sgwadron Awyr y Llynges 809.

# Addysg

Gan fod rhai teuluoedd y Lluoedd Arfog yn tueddu i symud, mae plant y Lluoedd Arfog yn gallu wynebu heriau penodol, ac ychwanegol, drwy gydol eu cyfnod ym myd addysg wrth gymharu â'u cyfoedion.

Mae gwaith i wella addysg a llesiant plant y Lluoedd Arfog yn cynnwys:

- Eleni, cyhoeddwyd bod y Llynges Frenhinol, y Fyddin a'r Llu Awyr Brenhinol ymysg y pum prif gyflogwr prentisiaeth yn y DU, yn safle 1, 2 a 4 yn y drefn honno.

- Dyfarnodd **y Rhaglen Blynyddoedd Cynnar** £1.2 miliwn i 31 o brosiectau sy'n canolbwyntio ar wella addysg plant yn y blynyddoedd cynnar a gofal i blant rhwng 0 a 5 oed y Lluoedd Arfog.

- Dyfarnodd **Rhaglen Cymorth i Ddisgyblion y Lluoedd Arfog** dros £1.8 miliwn i 48 o brosiectau gyda'r nod o wella canlyniadau addysgol i blant y Lluoedd Arfog.

- Mae Llywodraeth yr Alban wedi adnewyddu'r cyllid tymor byr ar gyfer 2024 i 2025 er mwyn parhau i gynnig rôl Swyddog Addysg a Phontio Cenedlaethol Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg yr Alban.




Disgyblion yn Ysgol Gynradd Sandhurst yn Llundain yn gwisgo gwisgoedd milwrol ac offer a ddarparwyd gan bersonel milwrol o Fagnelwyr Ceffylau Brenhinol Milwyr y Brenin.

# Tai a llety

Mae cael llety addas yn cyfrannu at lesiant cymuned y Lluoedd Arfog ac mae'n allweddol i effeithiolrwydd gweithredol y personél sy'n gwasanaethu.

Mae'r adroddiad yn nodi'r gwaith a wnaed yn ystod y cyfnod adrodd i wella'r llety a gynigir i bersonel y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd, yn ogystal ag edrych ar brofiad cymuned y Lluoedd Arfog yn y sector llety preifat, boed hynny yn y sectorau rhentu preifat neu gymdeithasol neu drwy berchnogaeth tai.

Mae'r uchafbwyntiau yn cynnwys:

- Ym mlwyddyn ariannol 2023 i 2024, gwariwyd £578 miliwn ar gynnal a gwella Llety i Deuluoedd y Lluoedd Arfog gan gynnwys cynnydd o £220 miliwn yn dilyn Diweddariad y Papur Gorchymyn Amddiffyn.

- O fis Tachwedd 2024 ymlaen, mae 44 o deuluoedd perthynas hirdymor wedi cael llety o dan y cynlluniau peilot llety estynedig tramor a lansiwyd ym mis Mawrth 2024

- Erbyn hyn, mae gan 99% o'r Llety i Deuluoedd y Lluoedd Arfog fynediad at Wi-Fi gyda chyflymder o 24Mbps - mae hyn yn welliant sylweddol i deuluoedd y Lluoedd Arfog mewn cyn-ardaloedd o ynysu digidol.

- Ers ei sefydlu ac erbyn diwedd y cyfnod adrodd hwn, mae Op FORTITUDE wedi helpu 773 o gyn-filwyr i gael tai.

# Cwestau ac ymgysylltiad barnwrol

Uned Cwestau’r Weinyddiaeth Amddiffyn yw pwynt cyswllt y Weinyddiaeth Amddiffyn ar gyfer crwneriaid yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac Uned Ymchwilio i Farwolaethau yr Alban, wrth iddyn nhw ymchwilio i’r hyn achosodd marwolaeth personél y Lluoedd Arfog, cyn-filwyr a gweithwyr sifil y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Mae’r Uned wedi recordio bod 41 o gwestau (15 ohonynt yn ymwneud â marwolaeth cyn-filwr) wedi dod i ben rhwng 1 Hydref 2023 a 30 Medi 2024. Nid yw cwestau eto wedi’u cynnal i 55 o farwolaethau personél milwrol, cyn-filwyr, a chontractwyr sifil neu’r Weinyddiaeth Amddiffyn a ddigwyddodd rhwng 1 Hydref 2023 a 30 Medi 2024.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cadarnhaodd Uned Ymchwilio i Farwolaethau yr Alban wrth Uned Cwestau’r Weinyddiaeth Amddiffyn ei bod wedi cwblhau ymchwiliadau i bedwar marwolaeth personél y Lluoedd Arfog. Yn achos y pedwar marwolaeth, roedd yr ymchwiliadau’n ddigon i ddeall yr hyn a oedd wedi achosi'r farwolaeth, felly nid oedd angen symud ymlaen i ymchwiliad i ddamwain angheuol (yr hyn sy’n cyfateb i gwest yn yr Alban).

Nid yw un ymchwiliad i ddamwain angheuol wedi dod i ben eto.

# Busnes, cyflogaeth a'r gymuned

Mae Cyfamod y Lluoedd Arfog yn un o adnoddau allweddol y Weinyddiaeth Amddiffyn i helpu cymuned y Lluoedd Arfog a'r gymdeithas sifil ehangach i ymgysylltu â'i gilydd, ac i annog sefydliadau i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog. Mae'r Cyfamod ei hun yn cyfeirio at y gyd-ddealltwriaeth rhwng cymuned y Lluoedd Arfog a chymdeithas gyfan. Drwy lens y Cyfamod mae cymdeithas ehangach y DU yn cael ei hannog i ddangos ei chefnogaeth a'i diolchgarwch i gymuned y Lluoedd Arfog am yr aberth maen nhw'n ei wneud ar ran pob un ohonom.

Dyma rai o'r uchafbwyntiau:

- Yn ystod blwyddyn ariannol 2023 i 2024 dyfarnodd Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog **£31,717,321** drwy **311 o grantiau** ar draws yr holl raglenni.

- Cyrhaeddodd Cyfamod y Lluoedd Arfog garreg filltir arwyddocaol ym mis Gorffennaf 2024 gyda'r 12,000fed llofnod ar y Cyfamod. Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, roedd yr union ffigur yn 12,401.

- Mae'r Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn yn parhau i annog cyflogwyr i gefnogi'r Weinyddiaeth Amddiffyn a chymuned y Lluoedd Arfog. Mae cyfanswm deiliaid y wobr aur wedi codi i 1,015 ac mae cyfanswm deiliaid y wobr arian wedi codi i 1,467. Mae'r wobr Efydd wedi cynyddu i 5,204.

- O'r rheini a oedd wedi gadael y Lluoedd Arfog yn ystod 2022 i 2023 ac a oedd wedi defnyddio gwasanaethau Partneriaeth Pontio Gyrfaoedd y

Weinyddiaeth Amddiffyn ac wedi rhannu eu canlyniadau cyflogaeth yn ystod yr adolygiad chwech misol dilynol, roedd 89% wedi cael swydd.

- Ar 28 Ionawr 2024 lansiodd y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Swyddfa Materion Cyn-filwyr y gwasanaeth 'Gwneud cais am Gerdyn Cyn-filwr Lluoedd Arfog EF'. Hyd yma, mae dros 100,000 o gardiau wedi cael eu cyflwyno i gyn-filwyr.

- Cynhaliwyd Cynhadledd Tystiolaeth ac Ymchwil Ryngwladol gyntaf Lluoedd Arfog yr Alban yng nghampws Craiglockhart, Prifysgol Edinburgh Napier, ym mis Awst 2024.




Y Gweinidog dros Gyn-filwyr a Phobl, Alistair Carns, OBE, MC, AS, yng Ngorsaf Waterloo gyda phersonél y Lluoedd Arfog yn casglu rhoddion ar gyfer Apêl Pabi'r Lleng Brydeinig Frenhinol yn 2024.

# Y Cyfamod yn y gyfraith

Roedd Dyletswydd Gyfreithiol statudol Cyfamod y Lluoedd Arfog yn Neddf y Lluoedd Arfog 2021 yn rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol ar gyrff cyhoeddus penodol i roi sylw dyledus i egwyddorion y Cyfamod wrth arfer swyddogaethau penodol ym maes gofal iechyd, addysg a thai, a allai effeithio ar gymuned y Lluoedd Arfog.

Cynhaliodd y Weinyddiaeth Amddiffyn arolwg i asesu effaith y Ddyletswydd, a gellir dod o hyd i'r canfyddiadau manwl yn yr adroddiad. Yn gyffredinol, canfu fod cyflwyno'r Ddyletswydd wedi arwain at well dealltwriaeth o'r Cyfamod ac effeithiau bywyd yn y Lluoedd Arfog. Mae mwy o gamau'n cael eu cymryd i liniaru effeithiau negyddol bywyd yn y Lluoedd Arfog, a sefydlwyd gwahanol elfennau o seilwaith ategol. Serch hynny, mae'n glir bod rhagor i'w wneud eto o ran gweithredu'r Cyfamod.

Roedd ein maniffesto etholiadol yn ymrwymo i "gryfhau'r gefnogaeth i gymunedau'r Lluoedd Arfog drwy ymgorffori Cyfamod y Lluoedd Arfog yn llawn yn y gyfraith". Rydym nawr yn datblygu opsiynau i fwrw ymlaen â hyn. Fel rhan o hyn, rydym yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys adrannau Llywodraeth y DU, gweinyddiaethau datganoledig ac elusennau, i ofyn am eu barn ac i'n helpu i ddeall costau a manteision y gwahanol opsiynau